strategaeth chwaraeon elite 2010-16

sportwales
chwaraeoncymru

“”

uno cenedl falch ym myd chwaraeon.

LOTTERY FUNDED
ARIENNIR GAN Y LOTERI

Noddir gan Lywodraeth Cymuliad Cymru
Sponsored by Welsh Assembly Government

cynnwys

1. **Rhagair**
   1.1. Cadeirydd Chwaraeon Cymru
   1.2. Y Gweinidog dros Dreftadaeth
2. **Crynodeb Gweithredol**
3. **Cyflwyniad**
4. **Dull**
5. **Targedau Pennawd**
6. **Categoreiddio Chwaraeon Elite**
   6.1. Proses
   6.2. Beth mae hyn yn ei olygu?
   6.3. Pa chwaraeon a gafodd eu categoreiddio ar gyfer Chwaraeon Elite?
   6.4. Sut caiff Chwaraeon Anabledd eu categoreiddio?
   6.5. Sut caiff chwaraeon proffesiynol mawr yng Nghymru eu categoreiddio?
7. **Athrofa Chwaraeon Cymru**
   7.1. Chwaraeon y DU
   7.2. Uned Digwyddiadau Mawr
   7.3. Addysg Uwch
8. **Cyllid Chwaraeon Elite**
9. **Targedau Diwygiedig Dringo’n Uwch**
   9.1. Gemau’r Gymanwlad
   9.2. Gemau Olympaidd
   9.3. Gemau Paralympaidd
   9.4. Rygbi’r Undeb
   9.5. Pêl-droed
   9.6. Golff
   9.7. Criced
10. **Sylwadau i gloi**
11. **Atodiad**
    11.1 Llwyddiannau 2006 – 2009

1. rhagair

“rydym eisiau i Gymru gael ei gweld fel cenedl o bencampwyr, lle disgwylir ennill, lle caiff talent ei ddatblygu a lle caiff llwyddiant ei hyrwyddo a’i ddathlu mewn ystod eang o chwaraeon.”

1.1.

Yn nhermau llwyddiant chwaraeon elite, mae gennym ni yng Nghymru lawer i ymfalchïo ynddo. Cenedl fach ydym, ond un sy’n bendant iawn yn taro uwchben ei phwysau. Mae’r strategaeth hon yn nodi llwybr uchelgeisiol a heriol ar gyfer chwaraeon elite yng Nghymru. Ynghyd â’n partneriaid, credwn y dylem barhau i herio ein hunain i gynnal ein llwyddiant a hefyd adeiladu arno. Rydym eisiau mesur ein llwyddiant nid yn unig yn erbyn cenhedloedd eraill y Deyrnas Unedig, ond hefyd ar lefel fyd-eang a dod yn esiampl o sut y medrir datblygu a chynnal llwyddiant mewn chwaraeon elite. Mae’r strategaeth hon yn anelu i roi’r systemau a chefnogaeth ar waith i sicrhau bod ein stori o lwyddiant yn parhau.

Mae Chwaraeon Cymru yn cydnabod na fedrir cyflawni hyn drwy geisio gwneud mwy o’r un peth. Mae angen i ni ddefnyddio agwedd wahanol, cydweithio a bod yn fwy rhagweithiol wrth herio ein gilydd i gael y canlyniadau gorau i’n hathletwyr a’n hyfforddwyr. Gyda chefnogaeth y Llywodraeth a’n partneriaid mewn chwaraeon, ein nod fydd sicrhau llwyddiant systematig ar y lefel uchaf oll.

Rydym eisiau i Gymru gael ei gweld fel cenedl o bencampwyr, lle disgwylir ennill, lle caiff talent ei ddatblygu a lle caiff llwyddiant ei hyrwyddo a’i ddathlu mewn ystod eang o chwaraeon. Credwn fod y strategaeth hon yn nodi dechrau taith i lwyddiant pellach yn y dyfodol.

Yr Athro Laura McAllister
Cadeirydd Chwaraeon Cymru

1.2.

Mae chwaraeon yn bwysig i lawer o bobl yng Nghymru ac am sawl rheswm. Mae’n bwysig i’n hiechyd, i’n synnwyr o les, i’n hunaniaeth genedlaethol ac i’n lle ni yn y byd.

Heddiw, ceir pwyslais a ffocws mawr ar fanteision iechyd a chymdeithasol chwaraeon, ac mae hynny’n beth da. Mae cymryd rhan yn bwysig iawn ac mae’n rhaid i ni ddal ati i roi cyfle i bawb gymryd rhan mewn chwaraeon a’u mwynhau. Fodd bynnag, dylem hefyd gydnabod a dathlu talent a rhagoriaeth. Mae cymryd rhan yn bwysig ond mae ennill hefyd yn bwysig mewn chwaraeon.

Mae Cymru’n wlad fechan gydag uchelgais mawr. Rydym eisiau ennill medalau mewn cystadlaethau chwaraeon mawr fel y Gemau Olympaidd, y Gemau Paralympaidd a Gemau’r Gymanwlad. Rydym eisiau ennill pencampwriaethau Byd ac Ewropeaidd. Rydym eisiau bod yn enwog ledled y byd am yr hyn a gyflawnir gennym mewn chwaraeon.

Mae’r strategaeth hon yn cyflwyno cyfeiriad clir a thargedau uchelgeisiol ar gyfer chwaraeon elite yng Nghymru. Mae’n cynnig sylfaen gadarn ar gyfer gwneud y defnydd gorau o’r adnoddau sydd ar gael i gyflwyno rhagoriaeth ac i fesur y cynnydd tuag at gyflawni ein huchelgais.

Yn 2014, bydd athletwyr Cymru’n cystadlu yng Ngemau’r Gymanwlad yn Glasgow. Hwn fydd ein cyfle ni i arddangos ein talent chwaraeon i weddill y byd. Bydd y strategaeth hon yn rhoi’r cyfle gorau posibl i’n hathletwyr fod yn llwyddiannus.

Alun Ffred Jones AC
Y Gweinidog dros Dreftadaeth

“mae chwaraeon yn bwysig i lawer o bobl yng Nghymru ac am sawl rheswm. Mae’n bwysig i’n hiechyd, i’n synnwyr o les, i’n hunaniaeth genedlaethol ac i’n lle ni yn y byd.”

2. crynodeb gweithredol

Gweledigaeth Chwaraeon Cymru yw uno cenedl chwaraeon falch; ein nod yw cynyddu gweithgarwch corfforol a chodi safonau perfformio. Mae uno'n air pwerus iawn sy'n helpu i fynegi rôl Chwaraeon Cymru mewn dod â phartneriaid a phobl at ei gilydd: awdurdodau lleol, cyrff rheoli chwaraeon, cymunedau, hyfforddwyr, oedolion, pobl ieuainc, plant a'r genedl gyfan i gefnogi chwaraeon a chymryd rhan a rhagori ynddynt.

Fel gwlad, mae Cymru'n enwog am ei hangerdd a'i hymrwymiad i gefnogi clybiau lleol yn ogystal â'n timau cenedlaethol ar lwyfan y byd. Rydym yn wlad gymharol fechan, ond yn un sy'n rhagori ar y disgwyliadau o ran ein presenoldeb mewn cystadlaethau rhyngwladol. Mae ein llwyddiannau yn y Gemau Olympaidd a Pharalympaidd yn Beijing yn 2008 yn brawf o hyn. Y rhain oedd Gemau Olympaidd mwyaf llwyddiannus Cymru ers 100 mlynedd. Enillwyd pump o fedalau a sicrhaodd athletwyr Cymru bedwar ar ugain y cant o'r medalau aur a enillwyd gan Baralympiaid Prydain Fawr.

Nid dim ond am ei harwyr rygbi a phêl droed mae Cymru'n enwog bellach; mae gennym erbyn hyn nifer sylweddol o athletwyr gwrywaidd a benywaidd a gydnabyddir ar hyd a lled y byd am eu cyflawniadau yn y byd chwaraeon: Nicole Cooke, Dave Roberts, Tanni Grey Thompson, David Davies a Joe Calzaghe i enwi dim ond rhai. Yn dynn ar eu sodlau mae cenhedlaeth newydd o dalent sy'n prysur wneud ei marc ar lefel iau ac ieuenctid ac rydym yn credu y bydd y rhain yn enwau cyfarwydd iawn yn y dyfodol.

Mae'r strategaeth hon yn ein galluogi i gael gwell ffocws a sicrhau ein bod yn dal ati i gael llwyddiant ar y lefel uchaf. Y dyhead yn y pen draw yw i Gymru nid yn unig ragori mewn chwaraeon ond hefyd bod yn enwog ym mhob cwr o'r byd fel cenedl chwaraeon lwyddiannus. Mae'n sefydlu cyfres heriol tu hwnt o dargedau sy'n adlewyrchu lefelau presennol y potensial a'r cyflawniadau yn y byd chwaraeon yng Nghymru. Rydym yn rhagweld y bydd y targedau hyn yn ein gyrru ni a'n partneriaid i sicrhau ein bod wedi rhoi'r prosesau i gyd yn eu lle fel bod gennym bob cyfle i lwyddo ar lwyfan y byd.

Mae gan Gymru gyfle unigryw rhwng 2010 a 2016 i gyflawni ar y llwyfan rhyngwladol gyda dau o'r achlysuron aml-chwaraeon mwyaf yn dod i'r DU, Llundain 2012 a Glasgow 2014.

Bydd y ddau fesur a ganlyn yn allweddol wrth i ni ystyried ein llwyddiant:

- Safle Cymru, ar sail y pen, yn y tabl medalau yng Ngemau Cymanwlad Glasgow 2014.
- Nifer yr athletwyr o Gymru'n cystadlu ac yn ennill medalau i Brydain Fawr yn y Gemau Olympaidd a Pharalympaidd.

Boed yn rhan o dîm Prydeinig llwyddiannus neu'n cynrychioli eu gwlad, byddwn yn rhoi blaenoriaeth i'r athletwyr hynny y mae eu campau wedi cydnabod eu talent i gyflawni'n erbyn ein nodau wrth i ni fuddsoddi ynddynt a darparu gwasanaethau ar eu cyfer. Byddwn yn parhau i weithio gan roi sylw canolog i'r athletwr, gan sicrhau bod ein perfformwyr elite yn derbyn gwasanaethau o safon gan sefydliadau perfformiad uchel, o ran gwyddoniaeth chwaraeon, meddygaeth chwaraeon, ffordd o fyw'n perfformio a dadansoddi perfformiad, er mwyn eu cefnogi i gyrraedd eu potensial.

3. cyflwyniad

Nod y strategaeth hon yw troi'n realiti y datganiad polisi a wnaed gan y Gweinidog Treftadaeth ar 18 Tachwedd 2009:

"Rydym eisiau ennill medalau yn y cystadlaethau aml-chwaraeon mawr fel y Gemau Olympaidd, y Gemau Paralympaidd a Gemau'r Gymanwlad. Rydym eisiau ennill pencampwriaethau Byd ac Ewropeaidd. Rydym eisiau bod y gorau allwn ni ac rydym eisiau bod yn enwog ar hyd a lled y byd am yr hyn a gyflawnwn yn y byd chwaraeon. Ond nid yw'n golygu gwneud dim byd ond ennill medalau ar draul popeth arall.

"Wrth gydnabod yr effaith bositif all chwaraeon ei chael ar fywydau pobl, dylid targedu ein buddsoddiad mewn chwaraeon nid yn unig at y chwaraeon hynny a all sicrhau i ni'r llwyddiant rydym yn ei ddymuno o ran ennill medalau ond, hefyd, y rhai a all ysbrydoli a chymell pobl i gymryd rhan – ac sy'n bwysig i Gymru."

Mae'r strategaeth hon wedi'i chynllunio'n benodol ac mewn ffordd unigryw i ganolbwyntio ar y cyntaf o'r ddau baragraff yma, yn berthnasol i chwaraeon. Mae Chwaraeon Cymru'n cydnabod y rôl bwysig sydd gan Gyrff Rheoli Chwaraeon Cenedlaethol wrth gyflwyno chwaraeon ar lefel gyffredin a chwaraeon cymunedol, a fydd yn parhau i dderbyn cefnogaeth drwy gyfrwng amrywiaeth o raglenni. I'r diben hwn, mae'n bwysig nodi na fydd y strategaeth hon yn penderfynu ar gyfanswm yr arian y bydd Cyrff Rheoli Cenedlaethol Cymru'n ei dderbyn gan Chwaraeon Cymru

Mae'r strategaeth hon yn gynnyrch ymgynghori eang, gyda Chwaraeon Cymru ei hun i ddechrau ac yna fel rhan o radiws sy'n ehangu o hyd, sydd wedi cynnwys, Cymdeithas Chwaraeon Cymru, Cyngor Gemau'r Gymanwlad Cymru a'r Ffederasiwn ar gyfer Chwaraeon Anabledd Cymru. Yn olaf, ymgynghorwyd â phob un o Gyrff Rheoli Cenedlaethol Cymru, a fydd yn cyfrannu'n helaeth at y nodau yn y strategaeth hon.

Mae'r strategaeth yn ceisio penderfynu sut fydd Chwaraeon Cymru'n categoreiddio'r chwaraeon rydym yn gweithio â hwy ar lefel elite, gan gynnig eglurder ynghylch beth all pob camp ei ddisgwyl o ran cefnogaeth. Ni fydd y categoreiddio hwn yn esgusodi unrhyw chwaraeon mewn unrhyw ffordd o'r ddyletswydd graidd i gynnal strwythurau a phrosesau rheoli cadarn, cynllunio'n effeithiol a sicrhau budd a chynnydd yn sgil y buddsoddiad maent yn eu derbyn.

Bydd y categoreiddio'n penderfynu sut fydd Chwaraeon Cymru'n gweithio gyda chwaraeon ac unigolion elite er mwyn cyrraedd y targedau a'r nodau sydd wedi cael eu datgan wrth ymgynghori â'r chwaraeon hynny. Yn arbennig, rydym yn canolbwyntio ar y chwaraeon hynny sy'n dibynnu ar gyllid y Llywodraeth er mwyn datblygu a chyflwyno eu rhaglenni elite a'r llwybrau sy'n sail i'r rhaglenni hynny.

Mae'r strategaeth hefyd yn ceisio cynnwys y chwaraeon proffesiynol hynny y mae eu perfformiadau a'u canlyniadau ar lefel ryngwladol yn eithriadol bwysig i Gymru fel gwlad – a'r rhai nad oes gan Chwaraeon Cymru berthynas gyllido uniongyrchol na sylweddol gyda hwy, neu nad yw ond yn darparu cefnogaeth ar lefel iau neu amatur iddynt ar hyn o bryd. Mae Chwaraeon Cymru'n bwriadu trafod gyda'r chwaraeon hyn eu cynlluniau a'u nodau, gan ystyried sut orau i weithio mewn partneriaeth â hwy wrth iddynt ddatblygu eu his-strwythur a'u rhaglenni, gan eu hannog i fuddsoddi'n briodol mewn llwybrau cadarn, o gymryd rhan

"rydym eisiau ennill medalau yn y cystadlaethau aml-chwaraeon mawr fel y Gemau Olympaidd, y Gemau Paralympaidd a Gemau'r Gymanwlad.

Mae'r strategaeth yn cynnwys y cyfnod rhwng 2010 a 2016, gan wybod bod:

- Y cyfnod hwn yn cynnwys digwyddiadau aml-chwaraeon mawr, sef Gemau'r Gymanwlad Delhi 2010 a Gemau Olympaidd a Pharalympaidd Llundain 2012 – er mae'r gwaith o gynllunio'r llwybr ar gyfer y Gemau hyn yn gyflawn fwy neu lai erbyn cyfnod ysgrifennu'r strategaeth hon.
- Y cyfnod hefyd yn cynnwys Gemau'r Gymanwlad Glasgow 2014, sy'n gyfle sylweddol i athletwyr a thimau Cymru ennill medalau i Gymru ar y llwyfan rhyngwladol.
- Y gwaith o gynllunio'r llwybr at Gemau Olympaidd a Pharalympaidd Rio 2016 ar lefel Prydain Fawr yn dechrau yn y dyfodol agos ac mae'n rhaid iddo gael ei ragweld a'i gynnwys yn y strategaeth hon.
- Yn ystod y cyfnod hwn, bydd pob camp sy'n rhan o'r strategaeth yn cystadlu hefyd ym mhencampwriaethau Ewrop a'r Byd, sy'n bwysig yn eu hanfod wrth reswm ac o ran eu rôl fel cerrig camu tuag at y cystadlaethau aml-chwaraeon mawr.

4. dull

“”

mae’n rhaid codi’r safon a disgwyl atebolrwydd gan bawb sy’n cymryd rhan. Mae’n ymwneud â sicrhau bod y llwyddiant a gaiff Cymru ar lwyfan y byd yn llwyddiant systematig, bwriadol ac yn un y gellir ei gynnal yn y dyfodol.

Mae’r strategaeth hon yn datgan dull Chwaraeon Cymru o weithio mewn perthynas â chwaraeon elite. Mae’r dull hwn wedi cael ei berffeithio dros y blynyddoedd ac mae’n rhoi ystyriaeth i’n gwerthusiad o’r systemau a’r strwythurau presennol, targedau presennol Dringo’n Uwch a’r argymhellion a wnaed yn yr adolygiad o Berfformiad a Rhagoriaeth. Dyma grynodeb o’r dull o weithio:

- Gwahaniaethu rhwng y chwaraeon a’r cystadlaethau hynny lle mae buddsoddiad Chwaraeon Cymru o ran cefnogaeth ac adnoddau’n gallu cael effaith uniongyrchol a’r rhai lle bydd yr effaith yn llai uniongyrchol.
- Cyflwyno system o gategoreiddio er mwyn i Chwaraeon Cymru allu cynnig gwahanol lefelau o gefnogaeth i chwaraeon wrth iddo gyflawni ei nodau cyffredinol.
- Canolbwyntio’r gefnogaeth a’r adnoddau ar nifer llai o chwaraeon er mwyn gwneud yn fawr o’u potensial i sicrhau llwyddiant cyson a chynaladwy ar lefel uchel.
- Cyflwyno model mwy hyblyg sy’n galluogi i Chwaraeon Cymru:
  - Cefnogi athletwyr o safon byd, waeth beth yw cryfder cyffredinol y chwaraeon maent yn cystadlu ynddynt
  - Buddsoddi’n fwriadol yn y prosiectau perfformio a nodir sydd â’r potensial i gyflwyno llwyddiant ar lefel uchel
  - Cydnabod ac ymateb i’r strwythurau cymhleth sydd yn eu lle ar gyfer chwaraeon elite oddi mewn i chwaraeon anabledd
  - Datblygu partneriaeth yn gweithio gyda chwaraeon proffesiynol mawr yng Nghymru, gan ychwanegu gwerth at eu llwybrau perfformio lle bo hynny’n briodol
- Ailddiffinio’r berthynas rhwng cyflwyno chwaraeon elite a’r strwythurau sy’n sail i hynny, gan gydnabod sut mae’r llwybr perfformio’n rhedeg rhwng y ddau.

Drwy gadw at y dull hwn o weithredu rydym yn cydnabod ein bod yn wlad fechan gydag adnoddau cyfyngedig. Felly, mae’n rhaid i’n ffocws fod ar gael y gorau un allan o’r adnoddau sydd ar gael i ni. Mae’n rhaid codi’r safon a disgwyl atebolrwydd gan bawb sy’n cymryd rhan. Mae’n ymwneud â sicrhau bod y llwyddiant a gaiff Cymru ar lwyfan y byd yn llwyddiant systematig, bwriadol ac yn un y gellir ei gynnal yn y dyfodol.

Os allwn ni wneud y pethau hyn i gyd, rydym yn hyderus mai’r canlyniad fydd ennill mwy o fedalau ar lefel Olympaidd, Paralympaidd, Cymanwlad, Byd ac Ewropeaidd rhwng 2010 a 2016, gan wireddu gweledigaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru, sef:

“Rydym eisiau bod y gorau allwn ni ac rydym eisiau bod yn enwog ar hyd a lled y byd am yr hyn a gyflawnwn yn y byd chwaraeon.”

5. targedau pennawd

Ar gyfer pob un o'r digwyddiadau aml-chwaraeon mawr hyn, mae'r strategaeth yn ceisio dehongli'r datganiadau polisi a wneir gan y Gweinidog drwy ddarparu targedau a nodau ar gyfer athletwyr a thimau Cymru. Mae'r targedau hyn yn cael eu cyfrif o'r gwaelod i fyny gan ddefnyddio gwybodaeth am yr hyn y mae'r chwaraeon eu hunain yn ei ystyried fel targedau realistig, ac maent yn ymddangos fel a ganlyn:

Gemau'r Gymanwlad

Deunaw medal sylfaen ac wyth ar hugain o fedalau estynedig yng Ngemau Delhi 2010.

Ugain medal sylfaen a thri deg pump o fedalau estynedig yng Ngemau Glasgow 2014.

Cymru i fod y wlad orau o blith y gwledydd cartref o ran nifer y medalau am bob miliwn o boblogaeth; gyda tharged estynedig o fod y wlad yn perfformio orau yn y Gymanwlad gan ddefnyddio'r un dangosydd.

Y Gemau Olympaidd

Athletwyr Cymru i ennill cyfanswm o chwe medal Olympaidd ar draws yng Ngemau 2012 a 2016, gyda tharged estyn o ddeg medal Olympaidd.

Y Gemau Paralympaidd

Athletwyr Cymru i ennill cyfanswm o ddeg ar hugain o fedalau Paralympaidd ar draws Gemau 2012 a 2016 gyda tharged estyn o ddeugain o fedalau Paralympaidd.

Cymru yn anelu i fod y prif gyfrannwr ar sail y pen o fedalau Paralympaidd Prydain Fawr'.

Pennir targedau a nodau ar gyfer y chwaraeon proffesiynol mawr yng Nghymru hefyd, sef rygbi'r undeb, pêl droed, golff a chriced, er cydnabyddir y bydd cyflawni'r rhain yn dibynnu ar y gefnogaeth gan y chwaraeon eu hunain yn bennaf.

Cyflwynir y strategaeth drwy gyfrwng gwaith parhaus Chwaraeon Cymru gyda Chyrff Rheoli Chwaraeon Cenedlaethol Cymru i ddatblygu cynlluniau chwaraeon elite cadarn sy'n ddarostyngedig i ddyfarniadau cyllido hirdymor dynodol ac a adolygir yn flynyddol er mwyn sicrhau bod cynnydd yn cael ei wneud yn erbyn dangosyddion perfformiad a thargedau cerrig milltir. Y rhain fydd y blociau adeiladu ar gyfer creu atebolrwydd ar gyfer cyflwyno.

Yn olaf, bydd y strategaeth ei hun yn rhan o broses o adolygu cyfnodol, yn unol â'r holl gemau mawr a bryd hynny ystyrir yr amgylchiadau sy'n newid, fel llwybrau cynllunio ar gyfer 2016 yn dod i'r amlwg neu addasiadau i restri'r chwaraeon Olympaidd, Paralympaidd a Chymanwlad. Bydd hyn yn sicrhau bod y strategaeth yn ddogfen fyw a deinamig, yn gallu ymateb yn gyflym i anghenion yn y byd chwaraeon elite sy'n esblygu'n gyflym.

6. categoreiddio chwaraeon elite

6.1. Y broses gategoreiddio

Mae Chwaraeon Cymru'n bwriadu canolbwyntio ei sylw, ei adnoddau a'i wasanaethau ar y chwaraeon hynny sy'n cynnig y siawns fwyaf ac ehangaf o gyrraedd y targedau a'r dyheadau a lle gall wneud y gwahaniaeth mwyaf. Felly, rydym yn bwriadu categoreiddio'r chwaraeon yr ydym yn gweithio â hwy ar lefel elite, mewn modd a fydd yn egluro'r ffordd y gall pob camp ddisgwyl derbyn cefnogaeth. Ni fydd y categoreiddio hwn yn esgusodi unrhyw chwaraeon mewn unrhyw ffordd o'r ddyletswydd graidd i gynnal strwythurau a phrosesau rheoli cadarn, i gynllunio'n effeithiol ac i sicrhau elw ar fuddsoddiad.

Mae'r broses gategoreiddio'n seiliedig ar y gred mai buddsoddi yn chwaraeon Gemau'r Gymanwlad fydd yn cynnig i Gymru'r siawns fwyaf uniongyrchol a chyflym o ganlyniadau. Hynny yw, mae Gemau'r Gymanwlad yn cynnig cyfle i athletwyr Cymru gystadlu gan wisgo fest Cymru dros dîm o Gymru, ac ennill medalau ar ran Cymru. Nid yw hyn yn tynnu oddi wrth bwysigrwydd y Gemau Olympaidd a Pharalympaidd – yn hytrach mae'n cydnabod y maes lle gall buddsoddiad Cymru sicrhau'r canlyniad amlycaf ar gyfer y genedl. O gadw'r gred hon mewn cof, mae'r canlynol yn darparu, yn nhrefn eu pwysigrwydd, y meini prawf a ddefnyddir ar gyfer categoreiddio:

- chwaraeon craidd Gemau'r Gymanwlad sydd hefyd yn chwaraeon Olympaidd a / neu Baralympaidd
- chwaraeon dewisol Gemau'r Gymanwlad a fydd yn ymddangos yng Gemau'r Gymanwlad Glasgow 2014, sydd hefyd yn chwaraeon Olympaidd a / neu Baralympaidd
- chwaraeon craidd Gemau'r Gymanwlad ond nad ydynt yn chwaraeon Olympaidd a / neu Baralympaidd
- chwaraeon Olympaidd a / neu Baralympaidd nad ydynt yn chwaraeon craidd na dewisol Gemau'r Gymanwlad

Gyda'r system bwysoli hon, asesir y chwaraeon yn erbyn y meini prawf a ganlyn:

- A oes gan y chwaraeon enw da'n ddiweddar am lwyddiant (h.y., medalau a enillwyd) yn:
  - Gemau'r Gymanwlad, drwy gyfrwng perfformiad athletwyr a thimau Cymru
  - Y Gemau Olympaidd / Paralympaidd, drwy gyfrwng perfformiad athletwyr a thimau Prydain Fawr
- A oes dyfnder talent / casgliad allweddol o athletwyr elite yng Nghymru?
- Nifer y medalau sydd ar gael yng Ngemau'r Gymanwlad ac yn y Gemau Olympaidd / Paralympaidd?

Oddi mewn i'r broses gategoreiddio, rhoddir ystyriaeth ar wahân i'r canlynol:

- Chwaraeon anabledd, y rhai gyda dau lwybr penodol (trac dwbl) h.y. llwybrau sy'n cyd-fynd â'i gilydd gan alluogi llwybrau perfformio integredig neu gynhwysol a'r rhai gyda llwybrau perfformio a gefnogir gan Ffederasiwn Chwaraeon Anabledd Cymru.
- Chwaraeon proffesiynol lle nad oes gan Chwaraeon Cymru lawer o ddylanwad ar yr ochr elite, sef rygbi'r undeb, pêl droed, golff a chriced. Bydd y rhain yn cael eu trin ar wahân drwy drafod gyda'r corff rheoli cenedlaethol perthnasol.

6.2. Beth yw ystyr categoreiddio?

Drwy gyfrwng y broses uchod, mae pedwar categori nodedig yn cael eu datgan er mwyn darparu fframwaith ar gyfer y gefnogaeth y bydd Chwaraeon Cymru'n ei darparu. Nid yw'n fwriad i'r fframwaith hwn fod yn fanwl gywir neu benodol, yn hytrach, bydd y gefnogaeth y bydd pob camp ym mhob categori'n ei derbyn yn ddarostyngedig i drafodaeth gyda'r gamp honno, gan gydnabod ei strwythurau a'i photensial a'r defnydd o'r gwasanaethau a'r adnoddau sydd ar gael mewn ffordd briodol.

categoreiddio chwaraeon elite parhad

Categori A

- Darperir cefnogaeth berfformio i'r chwaraeon hyn yn unol â'u potensial (a) i ennill medalau i Gymru yng Ngemau'r Gymanwlad, (b) i gyrraedd llwybrau perfformio'r DU ar gyfer athletwyr, o ddatblygu talent i statws uwch.
- Bydd yr athletwyr sydd wedi'u datgan fel rhai talentog yn cael gwneud defnydd o gyllid a chefnogaeth sy'n cynyddu wrth iddynt ddatblygu a symud ymhellach i fyny'r llwybr perfformio. Bydd yr athletwyr yng nghamau olaf y llwybr hwn yn cael cynnig cefnogaeth unigol, aml ar ddwysedd uchel. Bydd yr athletwyr yng nghamau cynnar y llwybr yn derbyn cefnogaeth fwy cyffredinol, mewn grŵp.
- Cyflwynir cefnogaeth hyfforddi drwy gyfrwng rhaglen Coach Cymru a bydd yn seiliedig ar yr egwyddor o ddarparu cefnogaeth briodol i'r llwybr perfformio. Ar gyfer chwaraeon Categori A, ystyrir cefnogaeth mewn tri dimensiwn:
  - Cyfarwyddyd hyfforddi; e.e. strategaeth a gweithredu
  - Cyflwyno hyfforddiant; e.e. defnyddio hyfforddwyr cenedlaethol
  - Datblygu a chefnogi hyfforddwyr; e.e. mentora, DPP
- Bydd cefnogaeth wyddoniaeth / meddygaeth chwaraeon yn seiliedig ar ddadansoddiad o anghenion chwaraeon-benodol, a gynhelir mewn partneriaeth rhwng y chwaraeon a Chwaraeon Cymru. Darperir gwasanaethau cefnogi gan adnodd mewnol Chwaraeon Cymru, os ydynt ar gael; fel arall, gan ddarparwyr allanol (gyda'r ansawdd wedi'i sicrhau gan Chwaraeon Cymru).
- Cefnogaeth hyfforddi / cystadlu, bydd cefnogaeth ariannol yn sail i'r model hyfforddi a chystadlu chwaraeon-benodol y mae'r athletwyr a ddynodwyd yn ei ddilyn.
- Cyllidir / cefnogir y defnydd o gyfleusterau cyn belled ag y bo modd, er mwyn gwarantu mynediad blaenoriaeth i'r athletwyr sydd wedi'u datgan i'r cyfleusterau cenedlaethol a rhanbarthol maent eu hangen er mwyn ymarfer.
- Llwybr perfformio darperir cefnogaeth er mwyn datblygu llwybr perfformio priodol yn sail i'r lefel elite.

Categori B

- Darperir cefnogaeth berfformio i'r chwaraeon hyn yn unol â'u potensial i (a) ennill medalau yng Ngemau'r Gymanwlad dros Gymru, gyda phwyslais ar yr athletwyr hynny y mae eu potensial eisoes wedi'i brofi; a (b) i gyrraedd llwybrau perfformio'r DU.
- Bydd yr athletwyr sy'n cael eu datgan fel rhai talentog yn derbyn cyllid a chefnogaeth a fydd yn cynyddu wrth iddynt ddatblygu a symud ymhellach i fyny'r llwybr perfformio.
- Darperir cefnogaeth hyfforddi drwy gyfrwng rhaglen Coach Cymru (neu gyfatebol) a bydd yn seiliedig ar yr egwyddor o gefnogi pob athletwr sydd wedi'i ddatgan fel athletwr talentog. Ar gyfer chwaraeon Categori B, bydd y model yn chwaraeon-benodol ac yn cael ei gyfeirio'n briodol tuag at ddarparu cefnogaeth dau ddimensiwn:
  - Cyflwyno hyfforddiant, e.e. defnyddio hyfforddwyr cenedlaethol.
  - Datblygu hyfforddwyr, e.e. mentora, DPP
- Bydd cefnogaeth gwyddor / meddygaeth chwaraeon yn rhoi blaenoriaeth i'r athletwyr hynny sydd â photensial i ennill medal yng Ngemau'r Gymanwlad neu symud ymlaen i lwybr perfformio'r DU. Bydd y gwasanaethau cefnogi'n cael eu darparu'n bennaf gan ddarparwyr allanol y mae eu hansawdd wedi'i gadarnhau.
- Cefnogaeth hyfforddi / cystadlu, bydd cefnogaeth ariannol yn sail i'r hyfforddiant chwaraeon-benodol cytunedig a'r model cystadlu y mae'r athletwyr a ddynodwyd yn ei ddilyn.
- Cyllidir / cefnogi defnydd o gyfleusterau cyn belled ag y bo modd, er mwyn gwarantu blaenoriaeth i'r athletwyr a ddynodwyd i gael mynediad i'r cyfleusterau cenedlaethol maent eu hangen ar gyfer hyfforddi.
- Llwybr Perfformio darperir cefnogaeth er mwyn datblygu llwybr perfformio priodol yn sail i'r lefel elite.

Prosiectau Perfformio

- Gall y chwaraeon hynny (yn enwedig chwaraeon tîm) a all gynnig prosiect neu fodel hunangynhwysol nad yw'n rhaglen nac yn llwybr ynddo'i hun ond sydd, serch hynny, yn arwain at ganlyniadau perfformio, geisio bod yn brosiect / model a gyllidir gan Chwaraeon Cymru.
- Ymhlith yr enghreifftiau o'r prosiectau / modelau hyn mae maesu tîm yng nghynghrair Prydain neu Loegr, a all fod yn sail ar gyfer datblygu athletwyr talentog; cynnal a chadw safle hyfforddi allweddol mewn lleoliad penodol; cynnal y fenter adnabod / datblygu talent a nodwyd.
- Bydd y prosiectau / modelau hyn yn gymwys i dderbyn cyllid, ond nid yr amrywiaeth o wasanaethau cefnogi sydd ar gael i chwaraeon Categori A a B.

Athletwyr yn Ennill Medalau

- Bydd athletwyr unigol sy'n dangos safon byd mewn unrhyw chwaraeon Y Gymanwlad, Olympaidd neu Baralympaidd nad ydynt wedi'u categoreiddio uchod yn gymwys i dderbyn cyllid a chefnogaeth gan Chwaraeon Cymru.
- Bydd athletwyr unigol sy'n dangos safon byd mewn unrhyw chwaraeon heb fod yn rhai Y Gymanwlad, Olympaidd neu Baralympaidd yn gymwys hefyd i dderbyn cyllid a chefnogaeth, yn unol â mympwy Chwaraeon Cymru.
- Darperir cyllid a chefnogaeth i'r athletwyr hyn ar sail unigol. Bydd y diffiniad o "safon byd" yn seiliedig ar ymchwil a chytundeb gyda phob un o'r chwaraeon perthnasol.

6.3. Pa chwaraeon sydd wedi'u categoreiddio ar gyfer chwaraeon elite?

Categori A
Athletau, Bocsio, Beicio, Ffederasiwn Chwaraeon Anabledd Cymru (gweler 6.4), Saethu a Nofio

Categori B
Bowlio, Gymnasteg, Jiwdo a Chodi Pwysau

Prosiectau Perfformio
I'w benderfynu gan y cais

Athletwyr yn Ennill Medalau
I'w benderfynu gan y cais

6.4 Sut mae chwaraeon anabledd yn cael eu categoreiddio?

Yn y byd chwaraeon i'r anabl, defnyddir yr un egwyddorion a meini prawf er mwyn lleoli chwaraeon oddi mewn i wahanol gategorïau, ac i benderfynu ar y modd y mae Chwaraeon Cymru'n neilltuo sylw, adnoddau a gwasanaethau iddynt.

Fodd bynnag, bydd y modd y mae Chwaraeon Cymru'n gweithio gyda chwaraeon anabledd yn wahanol ac yn cydnabod amgylchiadau penodol y chwaraeon hynny a'u cyrff rheoli:

- Dim ond gyda'r chwaraeon hynny lle mae cyrff rheoli Cymru'n cynnig, neu â photensial didwyll i gynnig, dull o weithredu dau lwybr neu gwbl integredig y bydd Chwaraeon Cymru'n sefydlu perthynas gyllido uniongyrchol, ac mae'n rhaid iddynt fod yn ddigon cadarn i gefnogi rhaglen anabledd ochr yn ochr â rhaglen heb fod i'r anabl.
- Bydd Chwaraeon Cymru'n gweithio ochr yn ochr â chwaraeon eraill drwy gyfrwng ei bartneriaeth â Ffederasiwn Chwaraeon Anabledd Cymru (FfChAC). Bydd Chwaraeon Cymru'n cyllido ac yn cefnogi chwaraeon ac athletwyr drwy gyfrwng FfChAC, yn unol â'r categori y mae pob un o'r chwaraeon / athletwyr hynny wedi'u lleoli ynddo.

Mae'r pwynt olaf hwn yn cydnabod nad oes gan fwyafrif Cyrff Rheoli Chwaraeon Cenedlaethol Cymru is-strwythur yn ei le i gefnogi chwaraeon anabledd; hefyd bod FfChAC wedi sefydlu swyddogaeth gefnogi perfformiad lwyddiannus, yn cynnwys Academi ar gyfer datblygu talent sydd wedi'i datgan.

Mae ffocws yr Academi ar gynhyrchu athletwyr ac nid ennill medalau'n uniongyrchol. Mae'n cyflwyno rhaglen aml-chwaraeon gyda chylch gorchwyl eang i scirhau cymaint o gyfleoedd ag y bo modd. Cryfder y system yng Nghymru yw bod athletwyr yn cael eu datblygu mewn amrywiaeth eang o chwaraeon ac mae hyn yn cynnig cyfle trosglwyddo talent effeithiol, os yn briodol. Mae hyn yn arbennig o bwysig ar gyfer chwaraeon anabledd, gan fod y dosbarthiadau'n newid yn aml mewn chwaraeon unigol.

6.5 Sut mae categoreiddio chwaraeon proffesiynol mawr yng Nghymru?

Bydd pob camp broffesiynol – yn benodol, rygbi'r undeb, pêl droed, golff a chriced – yn cael sylw ar wahân y tu allan i'r system gategoreiddio. Bydd Chwaraeon Cymru'n trafod gyda phob un o Gyrff Rheoli Chwaraeon Cenedlaethol y campau hyn yng Nghymru eu cynlluniau a'u nodau strategol ac yn ystyried sut orau i weithio mewn partneriaeth â hwy ar gyfer eu cyflawni.

Gellir buddsoddi adnoddau a gwasanaethau mewn meysydd lle gellir cael effaith benodol wrth gefnogi'r nodau cyffredinol, yn ogystal â chydnabod y rôl sylweddol y mae'r chwaraeon hyn yn ei chwarae yng Nghymru mewn perthynas â sylw gan y cyfryngau, proffil a diddordeb gan y cyhoedd. Bydd Chwaraeon Cymru'n gweithio mewn partneriaeth â'r chwaraeon hyn er mwyn codi proffil chwaraeon yng Nghymru, rhannu arfer orau a cheisio buddsoddiad pellach lle bo hynny'n briodol, er mwyn cefnogi datblygiad y gamp ar lefel gyffredin.

7. Athrofa Chwaraeon Cymru

Athrofa Chwaraeon Cymru yw swyddogaeth Berfformio Elite Chwaraeon Cymru. Mae Athrofa Chwaraeon Cymru'n cynnwys rhwydwaith o gyfleusterau a darparwyr sy'n gweithio gyda phartneriaid er mwyn helpu i gyflwyno llwyddiant yn y byd chwaraeon yng Nghymru ar y lefel uchaf. Datblygir y rhwydwaith er mwyn sicrhau ei fod yn diwallu'r anghenion a'r gofynion sy'n cael eu datgan gan yr athletwyr a'r hyfforddwyr.

Bydd adeilad Athrofa Chwaraeon Cymru yng Nghaerdydd yn cael ei ailenwi'n Ganolfan Genedlaethol Chwaraeon Cymru a bydd yn rhan o rwydwaith o gyfleusterau sy'n cefnogi'r Athrofa. Yng Ngogledd Cymru, mae Chwaraeon Cymru wedi darparu cefnogaeth benodol i ddatblygu rhwydwaith yr Athrofa a bydd hyn yn parhau dan faner Athrofa Chwaraeon Cymru.

Mae'r Ymarferwyr Elite yn Athrofa Chwaraeon Cymru'n gweithio fel rhan o dîm gyda phartneriaid er mwyn sicrhau bod yr athletwyr a'r hyfforddwyr i gyd yn derbyn gwasanaeth cwbl integredig yn diwallu eu hanghenion a gyda'r ansawdd wedi'i sicrhau.

Bydd chwaraeon ac athletwyr yn cael eu dewis i dderbyn cefnogaeth gan Athrofa Chwaraeon Cymru gan ddefnyddio ein proses gategoreiddio.

Yn nhermau cyllid, byddai athletwyr yn gymwys am gefnogaeth ariannol yn ôl eu llwyddiannau blaenorol a'u potensial ynghyd â'u safle perthnasol ar y llwybr.

Mae'r matrics o gefnogaeth a ddefnyddir yn cael ei nodi ac mae'n dibynnu ar amgylchiadau'r chwaraeon neu'r athletwyr, ond amlinellir y ddarpariaeth lawn isod:-

- Cefnogaeth i Athletwyr Elite (yn uniongyrchol neu drwy gyfrwng CRhC)
- Cefnogaeth i hyfforddiant elite
- Cefnogaeth i hyfforddi a chystadlu
- Defnydd o Gyfleusterau
- Ffordd o Fyw'n perfformio (addysg a chefnogaeth i'r athletwr)
- Cefnogaeth Feddygaeth Chwaraeon, yn cynnwys
  - Ymgynghori a sgrinio meddygol
  - Ffisiotherapi (cyn-adfer ac adfer)
- Cefnogaeth Gwyddor Chwaraeon, yn cynnwys
  - Dadansoddi Perfformiad
  - Ffisioleg
  - Cryfder a Siapio
  - Maeth
  - Seicoleg Chwaraeon

7.1. UK Sport

UK Sport yw'r corff arweiniol strategol ar gyfer chwaraeon perfformiad yn y DU. Mae'n buddsoddi cyllid y Trysorlys a'r Loteri Genedlaethol yn chwaraeon Olympaidd a Pharalympaidd gorau Prydain ac yn yr athletwyr, i sicrhau bod ganddynt bob siawns o lwyddo ar lwyfan y byd. Yn ei hanfod, mae cyfrifoldebau UK Sport yn ymwneud â bod yn sail i botensial y genedl i berfformio'n Olympaidd a Pharalympaidd a datgloi'r potensial hwnnw.

Nod y strategaeth yw cyd-fynd â gwaith UK Sport drwy fod yn sail i raglenni a mentrau'r DU a thrwy ddarparu cefnogaeth uniongyrchol i'r athletwyr hynny sydd wedi'u datgan fel rhai ar Lwybrau Perfformio'r DU ac wedi'u lleoli yng Nghymru.

Bydd y strategaeth yn pennu targedau ar gyfer cynrychiolaeth athletwyr Cymru yn nhimau Prydain Fawr ar gyfer y Gemau Olympaidd a Pharalympaidd a thargedau dyhead ar gyfer medalau oherwydd cyfranogiad cyfyngedig Cymru unwaith mae'r athletwyr yn rhan o system y DU.

7.2. Digwyddiadau Mawr

Gall cynnal cystadlaethau mawr gael effaith bositif ar y diddordeb mewn chwaraeon, y cyfranogiad mewn chwaraeon ac ar lwyddiant cystadleuwyr a thimau Cymru.

Er mwyn sicrhau'r effeithiau uchod (a'r manteision eraill, fel effeithiau economaidd a thwristaidd), mae'n bwysig cydnabod yr angen am allu cynllnio yn yr hirdymor ar gyfer digwyddiadau o'r fath. Er enghraifft, roedd y cyfnod yn arwain at Gwpan Ryder, rhwng gwneud y cais a chynnal y digwyddiad, yn 10 mlynedd.

Mae UK Sport wedi sefydlu strategaeth ar gyfer cystadlaethau mawr sydd wedi'i hadolygu'n ddiweddar ar gyfer y cyfnod rhwng 2013 a 2018. Mae hyn yn galluogi i CRhC ddynodi'r digwyddiadau yr hoffent eu cynnal yn ystod y cyfnod hwnnw ac yn cynorthwyo UK Sport a chyllidwyr eraill yn y Gweinyddiaethau Datganoledig a Rhanbarthau Lloegr fuddsoddi eu cyllid mewn ffordd strategol. Rydym yn ymwybodol bod Llywodraeth Cynulliad Cymru hefyd yn ymgynghori ynghylch Strategaeth Digwyddiadau Mawr a byddwn yn gweithio gyda hwy er mwyn sicrhau bod y ddwy ddogfen yn cefnogi'r targedau a'r nodau ar gyfer chwaraeon elite yng Nghymru.

Bydd Chwaraeon Cymru'n gweithio'n agos gyda'r Uned Digwyddiadau Mawr ar gyfer Cymru ac UK Sport er mwyn annog Cyrff Rheoli Cymru i ddatblygu cynlluniau strategol chwaraeon-benodol hirdymor ar gyfer digwyddiadau mawr yn ystod cyfnod y strategaeth hon. Bydd hyn yn darparu cyd-destun fel bod yr Uned digwyddiadau Mawr yn gallu gweithio mewn partneriaeth â Chyrff Rheoli er mwyn ystyried a rhoi sylw i faterion gallu wrth wneud cais am, cynnal a chyflwyno digwyddiadau chwaraeon rhyngwladol mawr. Dylid integreiddio'r strategaethau hyn ar gyfer y digwyddiadau mawr yng Nghynlluniau Perfformiad Uchel y Cyrff Rheoli'n barhaus, er mwyn sicrhau effeithiau hirdymor positif ar gyfer chwaraeon yn eu sgil.

> “”
>
> mae Chwaraeon Cymru'n cydnabod y rôl y gall y sector Addysg Uwch ei chwarae mewn helpu i gyrraedd prif nodau'r strategaeth hon.

7.3. Addysg Uwch

Mae Chwaraeon Cymru'n cydnabod y rôl y gall y sector Addysg Uwch ei chwarae mewn helpu i gyrraedd prif nodau'r strategaeth hon. Mae gan nifer o sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru arbenigedd a chyfleusterau y gall Cyrff Rheoli Cenedlaethol, athletwyr, hyfforddwyr ac Athrofa Chwaraeon Cymru eu defnyddio wrth geisio cyrraedd y nodau blaenoriaeth sydd wedi'u datgan yn y strategaeth hon.

Mae meithrin perthnasoedd a phartneriaethau swyddogaethol gyda phersonél allweddol mewn sefydliadau Addysg Uwch, yn cynnwys sefydliadau gydag arbenigedd mewn chwaraeon ar lefel elite, yn bwysig er mwyn sicrhau bod arbedion maint effeithiol yn cael eu hystyried a'u sicrhau yn y pen draw.

Ymhlith yr enghreifftiau penodol o hyn mae:-

- Edrych ar y rhaglenni trosglwyddo gwybodaeth ymarferol ar gyfer ymchwil chwaraeon ar lefel elite, naill ai drwy gyfrwng swyddi ymarferwyr a gyllidir yn rhannol neu gyfleoedd lleoliad ar gyfer myfyrwyr israddedig.
- Edrych ar lunio rhaglenni ymchwil sydd o fudd i chwaraeon, disgyblaethau neu agweddau penodol ar chwaraeon elite.
- Datblygu rhaglenni cefnogi strwythuredig ar y cyd ar gyfer y grŵp bychan o hyfforddwyr cenedlaethol e.e. hyfforddwyr Lefel 4.
- Darparu Gwasanaethau Cefnogi drwy bartneriaeth, ar lefel Prydain o bosibl, cyrraedd lefel Prydain ac athletwyr blaenoriaeth o Gymru, yn unol â phrif nodau'r strategaeth hon.

8. cyllid chwaraeon elite

“”

mae chwaraeon elite yn ddrud ac angen llawer o adnoddau. Does dim modd osgoi gwariant mewn gwirionedd: adlewyrchir unrhyw arbediad a wneir yn y canlyniad cystadleuol terfynol fel rheol. Mae cost cynhyrchu perfformiwr elite yr un faint waeth beth yw maint y genedl.

Mae’r strategaeth yn ceisio datgan y chwaraeon a’r rhaglenni lle gall buddsoddiad a chefnogaeth Chwaraeon Cymru esgor ar y manteision gorau posibl drwy gael yr effaith fwyaf uniongyrchol a sicrhau’r amrywiaeth ehangaf posibl o ganlyniadau tra’n dal i ddangos gwerth am arian.

Mae chwaraeon elite yn ddrud ac angen llawer o adnoddau. Does dim modd osgoi gwariant mewn gwirionedd: adlewyrchir unrhyw arbediad a wneir yn y canlyniad cystadleuol terfynol fel rheol. Mae cost cynhyrchu perfformiwr elite yr un faint, waeth beth yw maint y genedl. I Gymru, lle mae’r adnodd cyffredinol sydd ar gael i gefnogi chwaraeon elite yn gyfyngedig, mae hyn yn golygu bod raid targedu’r gwariant yn effeithiol at y man ble gellir gwneud yr enillion mwyaf. Yn ystod cyfnod y strategaeth, bydd Chwaraeon Cymru’n ceisio buddsoddi £22 miliwn i gyd mewn cyflwyno nodau’r strategaeth hon. Yn bennaf, bydd yn buddsoddi yn y chwaraeon Categori A a B yn ogystal â’r athletwyr a’r prosiectau sy’n ennill medalau, fel a nodir yn yr adran gategoreiddio.

9. targedau diwygiedig dringo’n uwch

Mae’r strategaeth hon yn cydnabod bod y canlyniadau a sicrhawyd gan athletwyr a thimau Cymru’n erbyn y targedau ar gyfer chwaraeon elite a gafodd eu datgan yn wreiddiol yn y ddogfen Dringo’n Uwch a gyhoeddwyd fis Ionawr 2005 wedi bod yn drawiadol ac yn ysbrydoledig mewn rhai meysydd. Crynhoir y canlyniadau a sicrhawyd rhwng 2006 a 2009, yn cynnwys y rhai yng Ngemau Olympaidd a Pharalympaidd Beijing yn 2008, yn Atodiad 1.

Wedi dweud hynny, mae’r strategaeth hon yn derbyn ac yn cymeradwyo’r argymhelliad yn adolygiad Llywodraeth Cynulliad Cymru o berfformiad a rhagoriaeth y dylai’r targedau a gafod eu datgan yn wreiddiol yn y ddogfen Dringo’n Uwch, yn arbennig y rhai a oedd yn ymwneud â chwaraeon elite, gael eu hadolygu a’u hailddatgan. Yn y cyswllt hwn, mae’r strategaeth hon yn cynnig bod:

- Y targedau a bennir ar gyfer y cyfnod sydd yn y strategaeth hon, hynny yw, o 2010 i 2016.
- Targedau dyhead yn cael eu cynnig ar gyfer chwaraeon a digwyddiadau lle nad yw:
  - Llywodraeth Cynulliad Cymru na Chwaraeon Cymru’n ychwanegu gwerth uniongyrchol at y chwaraeon na’r athletwyr dan sylw, ond mae eu lefelau perfformio o arwyddocâd cenedlaethol i Gymru
  - Y cyrff rheoli yng Nghymru y mae Chwaraeon Cymru’n eu cefnogi’n gyfrifol yn y pen draw am sicrhau’r canlyniadau, e.e. y Gemau Olympaidd
- Bydd targedau penodol, sylfaen ac estynedig yn cael eu sefydlu gan ymgynghori â’r chwaraeon perthnasol i weld sut all Chwaraeon Cymru ychwanegu mwy o werth uniongyrchol at ganlyniadau byrdymor a hirdymor.

Mae’r tablau canlynol yn gosod allan y targedau Dringo’n Uwch diwygiedig yn cynnwys resymegol ar gyfer pob.

Targed / dyhead	Rhesymeg
9.1. Gemau'r Gymanwlad: **Athletwyr Cymru i ennill 18 medal sylfaen a 28 medal estynedig yng Ngemau Delhi 2010.** **Athletwyr Cymru i ennill 25 - 35 medal yn Gemau Glasgow 2014.** **Cymru i fod y gorau o blith y gwledydd cartref am berfformio o ran nifer y medalau am bob miliwn o boblogaeth; gyda tharged estynedig o fod y wlad yn perfformio orau yn y Gymanwlad gan ddefnyddio'r un dangosydd.**	• Dylid gosod targed cronnol ar gyfer y medalau ym mhob un o'r Gemau gan ymgynghori â'r chwaraeon perthnasol, h.y. yn seiliedig ar nifer y medalau y cred pob camp y bydd yn eu hennill. Bydd hyn yn caniatáu ar gyfer ffactorau amgylchiadol, e.e. lleoliad y Gemau, pwysigrwydd y gystadleuaeth ym marn y Corff Rheoli yn y DU a'i athletwyr. • Dylai'r amrywiaeth o chwaraeon y mae athletwyr a thimau Cymru'n ennill medalau ynddynt gael ei ystyried fel mesur o lwyddiant hefyd. Bydd hyn yn arwydd o gyflwr cyffredinol a chryfder system chwaraeon elite Cymru. Yn arbennig, dylid disgwyl i'r chwaraeon a'r athletwyr hynny y mae Chwaraeon Cymru'n buddsoddi'n helaeth ynddynt ar lefel elite sicrhau llwyddiant o ran ennill medalau. • Dylai'r targed estynedig i fod y wlad yn perfformio orau yn y Gymanwlad o ran nifer y medalau a enillir am bob niliwn o'r boblogaeth fod yn amodol ar fedalau'n cael eu hennill mewn amrywiaeth o chwaraeon. Bydd hyn yn darparu arwydd realistig o gyflawniad ac yn osgoi'r perygl yng Nghymru o'i chymharu ei hun gyda gwledydd bychain sy'n sicrhau llwyddiant sylweddol drwy ennill medalau mewn dim ond un camp.

Targed / dyhead	Rhesymeg
9.2. Y Gemau Olympaidd: **Athletwyr Cymru i ennill lleiafswm o chwech o fedalau Olympaidd yng Ngemau 2012 a 2016, gyda tharged estynedig o ddeg medal Olympaidd.**	• Mae hwn yn ddyhead, ar sail nad yw asiantaethau Cymru'n gyfrifol yn y pen draw am berfformiad mewn Gemau Olympaidd oherwydd: - Cynhelir y paratoadau ar gyfer y Gemau fel rheol oddi mewn i gorff rheoli'r DU - Cymdeithas Olympaidd Prydain sy'n gyfrifol am ddethol ar gyfer y Gemau a'r perfformiad ynddynt • Mae'r lefel y pennir y dyhead arni'n cefnogi targed gwreiddiol Dringo'n Uwch o 15 medal rhwng 2004 a 2024, ac yn cynnal lefelau'r cyflawniad yn y Gemau diweddar. • Yn sail i'r dyhead bydd targedau Gemau-penodol oddi mewn i ddimensiynau lle mae asiantaethau Cymru'n gallu cael effaith fwy uniongyrchol. Ym mhob un o'r rhain, bydd y targed llinell sylfaen yn 5 y cant, i gyfateb i ganran y boblogaeth gyffredinol sy'n Gymry; a dylid cael targed estynedig o 10 y cant: - Nifer yr athletwyr o Gymru wedi'u dewis ar gyfer rhaglenni llwybrau perfformio'r DU - Nifer yr athletwyr o Gymru wedi'u dewis ar gyfer rhaglenni llwybrau perfformio'r DU ac sydd ag enw da'n ddiweddar am lwyddo - Nifer yr athletwyr o Gymru sy'n: - Cyrraedd safon gymhwyso ar gyfer y Gemau, lle bo hynny'n briodol, a / neu'n cael eu dewis ar gyfer tîm Prydain Fawr ac Iwerddon - Cyrraedd yr wyth olaf / uchaf yn eu cystadleuaeth - Ennill record / gorau personol cenedlaethol yn y Gemau

Targed / dyhead	Rhesymeg
9.3. Y Gemau Paralympaidd: **Athletwyr Cymru i ennill lleiafswm o 30 o fedalau Paralympaidd ar draws gemau 2012 a 2016, gyda tharged estynedig o 40 medal Paralympaidd.**	• Mae hwn yn ddyhead, ar sail nad yw asiantaethau Cymru'n gyfrifol yn y pen draw am berfformiad mewn Gemau Paralympaidd oherwydd Cymdeithas Baralympaidd Prydain sy'n gyfrifol am chwaraeon elite ar lefel y DU / Prydain Fawr. Hefyd, mae'r lefel y pennir y dyhead arni'n cefnogi targed gwreiddiol Dringo'n Uwch o gynnal y llwyddiant yn 2000 a 2004 ac yn adlewyrchu asesiad mwy realistig o gyflwr chwaraeon anabledd yng Nghymru. • Yn sail i'r dyhead bydd targedau Gemau-penodol oddi mewn i ddimensiynau lle mae asiantaethau Cymru'n gallu cael effaith fwy uniongyrchol. Ym mhob un o'r rhain, bydd y targed llinell sylfaen yn 5 y cant, i gyfateb i ganran y boblogaeth gyffredinol sy'n Gymry; a dylid cael targed estynedig o 14 y cant: - Nifer yr athletwyr o Gymru wedi'u dewis ar gyfer rhaglenni llwybrau perfformio'r DU - Nifer yr athletwyr o Gymru wedi'u dewis ar gyfer rhaglenni llwybrau perfformio'r DU ac sydd ag enw da'n ddiweddar am lwyddo • Nifer yr athletwyr o Gymru sy'n: - Bodloni safonau cymhwyso lleiafswm y PPRh ar gyfer y Gemau Paralympaidd a / neu'n cael eu dewis ar gyfer tîm Prydain Fawr ac Iwerddon - Cyrraedd yr wyth olaf / uchaf yn eu cystadleuaeth - Ennill record / gorau personol cenedlaethol yn y Gemau • Pennir targedau Gemau-penodol hefyd wrth ystyried rôl FfChAC o ran meithrin, datblygu a pharatoi athletwyr talentog yng Nghymru, yn arbennig mewn chwaraeon lle mae hyn yn digwydd ar ran cyrff rheoli Cymru a'r DU.

Camp	Targed / dyhead
9.4. Rygbi'r Undeb	• Mynegir dyhead sy'n cydnabod pwysigrwydd rygbi i Gymru, ond hefyd bod y llwyddiant rhyngwladol yn cael ei gynhyrchu gan raglenni Undeb Rygbi Cymru sy'n gweithredu y tu allan i gefnogaeth uniongyrchol gan Chwaraeon Cymru neu Lywodraeth Cynulliad Cymru. Dylai'r dyhead hwn adlewyrchu'r nodau sy'n cael eu datgan yng nghynllun strategol URC. Efallai y gellir disgwyl i'r rhain gael eu mynegi gan gyfeirio at: - Safle Cymru oddi mewn i safleoedd byd y BRRh - Perfformiad Cymru ym Mhencampwriaeth y Chwe Gwlad ar lefel hŷn ac yn y grwpiau oedran fel carreg gamu sylfaen tuag at safle ar lefel y byd - Perfformiad Cymru yng Ngwpan Rygbi'r Byd BRRh ac yn y Pencampwriaethau Byd Dan 20 Oed - Perfformiadau tîm Rygbi Saith Cymru yng Nghyfres y Byd y BRRh ac yn nhwrnamentau Rygbi Saith Gemau'r Gymanwlad - Cyfraniad Cymru at dimau Rygbi Saith Prydain Fawr yn y Gemau Olympaidd o 2016 ymlaen • Trafodir y targedau ar gyfer rygbi merched rhwng Chwaraeon Cymru ac URC er mwyn cydnabod buddsoddiad parhaus Chwaraeon Cymru yn y sector hwn o'r gamp – a chan ddisgwyl y bydd URC yn parhau i wneud buddsoddiad tebyg. Bydd y targedau hyn yn cyfeirio at: - Perfformiadau ym Mhencampwriaeth y Chwe Gwlad – o leiaf cynnal yr ail safle a sicrhawyd yn ystod y tymhorau diweddar - Perfformiadau yng Nghwpan Rygbi'r Byd yn 2010 a 2014 – a ddylai, fel lleiafswm, ddangos cynnydd o dwrnament i dwrnament

Camp	Targed / dyhead
9.5. Pêl droed	• Mynegir dyhead sy'n cydnabod pwysigrwydd pêl droed i Gymru, ond hefyd bod y llwyddiant rhyngwladol yn cael ei gynhyrchu gan raglenni Cymdeithas Bêl Droed Cymru a chlybiau pêl droed proffesiynol sy'n gweithredu heb gefnogaeth uniongyrchol gan Chwaraeon Cymru. Dylai'r dyhead hwn adlewyrchu'r nodau sy'n cael eu datgan yng nghynllun strategol CBDC. Efallai y gellir disgwyl i'r rhain gael eu mynegi gan gyfeirio at y canlynol fel rhan o gamp y dynion a'r merched: - Safle Cymru fel rhan o safleoedd byd FIFA a'r safle ar y cyfandir gydag UEFA - Perfformiad Cymru yng Nghwpan y Byd ac ym Mhencampwriaethau Ewrop ar lefel hŷn a lefel y grwpiau oedran, fel carreg gamu sylfaen tuag at y safle byd • Pennir targedau ar gyfer pêl droed y grwpiau oedran ar lefel hyd at ac yn cynnwys Dan 16 gan Ymddiriedolaeth Bêl Droed Cymru, i gydnabod buddsoddiad parhaus Chwaraeon Cymru yn y gamp ar y lefel hon – a chan ddisgwyl i CBDC barhau i wneud buddsoddiad tebyg / cynyddol. Bydd y targedau hyn yn cyfeirio at: - Perfformiadau yng nghystadleuaeth Tarian Fuddugoliaeth flynyddol y bechgyn y mae timau Dan 16 y gwledydd cartref i gyd yn cystadlu amdani; ennill y gystadleuaeth hon erbyn 2014 a - 90% o'r chwaraewyr o'r sgwadiau datblygu cenedlaethol Dan 16 oed ar gyfer bechgyn a merched i symud ymlaen i sgwadiau Canolraddol CBDC

Camp	Targed / dyhead
9.6. Golff	• Dylid mynegi dyhead sy'n cydnabod pwysigrwydd golff i Gymru ond hefyd bod llwyddiant rhyngwladol ar lefel broffesiynol yn cael ei benderfynu mewn dimensiynau nad ydynt yn derbyn cefnogaeth uniongyrchol gan Chwaraeon Cymru. Dylai'r dyhead hwn fod i olffwyr proffesiynol Cymru ragori ar lwyfan y Byd ac Ewrop, fel a ddangosir gan fuddugoliaethau mewn cystadlaethau mawr ac ar daith y PGA, a chan amlygrwydd yn safleoedd y byd ac Ewrop a chael eu dewis ar gyfer timau Cwpan Ryder a Chwpan Solheim. • Ar gyfer golff amatur, dylid gosod targedau sy'n adlewyrchu'r nodau sy'n cael eu datgan fel rhan o gynllun strategol Undeb Golff Cymru o dro i dro, gan gydnabod buddsoddiad parhaus Chwaraeon Cymru yn y llwybr perfformio a ddisgrifir gan y cynllun hwn, ar lefel ddatblygu a lefel elite. • Dylai'r targedau hyn gael eu hanelu'n bennaf at olffwyr amatur sy'n elwa o gyllid a chefnogaeth uniongyrchol gan asiantaethau Cymru a gellir eu pennu mewn perthynas â'r canlynol: - Nifer y chwaraewyr ymhlith y 100 uchaf yn y byd - Nifer y chwaraewyr a ddewisir ar gyfer timau Prydain Fawr ac Iwerddon mewn twrnamentau mawr (e.e., Cwpan Walker / Cwpan Curtis, St Andrew's / Tlysau Vagliano) - Nifer y chwaraewyr o Gymru'n gwneud cynnydd ar Daith Ewropeaidd y PGA a Thaith Ewropeaidd y Merched - Perfformiadau'r timau yn nghwrnamentau Tlws Eisenhower ac Espirito Santo ac ym Mhencampwriaethau Ewrop



Camp	Targed / dyhead
9.7. Criced Nid oedd dogfen Dringo'n Uwch yn cynnwys targedau chwaraeon elite ar gyfer criced. Fodd bynnag, er mwyn cydnabod y cynnydd yn y gamp yng Nghymru, sydd wedi gweld gêm yng Nghyfres y Lludw'n cael ei chynnal yn y wlad hon am y tro cyntaf yn 2009, mae'r strategaeth yn cynnig cynnwys criced oddi mewn i'w thargedau – fel bod pwrpas a chanlyniad rhagdybiol i'r buddsoddiad y mae Chwaraeon Cymru wedi'i wneud yn ddiweddar.	• Dylid mynegi dyheadau sy'n cydnabod pwysigrwydd criced i Gymru, ond hefyd bod llwyddiant ar lefel broffesiynol a rhyngwladol yn cael ei gynhyrchu gan y rhaglenni chwaraeon elite sy'n gweithredu heb gefnogaeth uniongyrchol gan Chwaraeon Cymru. Dylai'r dyheadau hyn adlewyrchu'r nodau sy'n cael eu datgan yng nghynllun strategol Clwb Criced Sirol Morgannwg a dylent gyfeirio at: - Nifer y chwaraewyr a ddewiswyd i sgwad hwn Bwrdd Criced Cymru a Lloegr - Llwyddiant Clwb Criced Sirol Morgannwg yng nghystadlaethau cartref Bwrdd Criced Cymru a Lloegr • Dylid pennu targed i gydnabod buddsoddiad parhaus Chwaraeon Cymru ym Mwrdd Criced Cymru er mwyn cefnogi strwythur grwpiau oedran Cymru ac Academi Griced Morgannwg, gan ddisgwyl y bydd criced Morgannwg yn parhau i wneud buddsoddiad tebyg. - Perfformiad sgwadiau grwpiau oedran Cymru yn y pencampwriaethau sirol - Nifer y chwaraewyr yng ngrwpiau oedran Cymru a ddewiswyd yn aelodau o sgwadiau grwpiau oedran Bwrdd Criced Cymru a Lloegr, yn fechgyn a merched - Nifer y chwaraewyr yng ngrwpiau oedran Cymru sydd wedi symud ymlaen i chwarae'r gêm yn broffesiynol - Canlyniadau'r merched hŷn yn y pencampwriaethau sirol

10. sylwadau cloi

Mae'r Strategaeth Chwaraeon Elite yma yn flaengar. Bu llawer o ymgynghori arni gyda'n partneriaid mewn cyrff rheoli a fydd y prif gyfryngau cyflenwi. Mae'n nodi uchelgeisiau afresymol iddynt hwy a ninnau. Ond credwn na all Chwaraeon Cymru a'r cyrff rheoli ddod yn sefydliadau sy'n perfformio'n uchel ac yn cyflawni uchel os na choleddwn y math yma o ddiwylliant. Byddai rhai'n dadlau y gall yr agwedd yma fod yn 'wystl ffawd'. Gwrthodwn ddadl o'r fath.

Ond wrth gwrs ni all sefydliadau sy'n perfformio'n uchel ddibynnu'n llwyr ar uchelgais afresymol i sicrhau llwyddiant. Byddwn yn gweithio'n agos gyda'n gilydd i sefydlu strategaethau sydd â gwybodaeth allweddol ar berfformiadau ar gyfer sicrhau llwyddiant; datganoli cyfrifoldeb arweinyddiaeth a gwneud pobl yn atebol am gyflawniadau ac yn sylfaenol sicrhau ein bod i gyd yn gweithio fel tîm i gefnogi ein hunigolion talentog.

Beijing oedd ein Gemau Olympaidd mwyaf llwyddiannus mewn 100 mlynedd ac roedd Paralympiaid Cymru yn gyfrifol am 25% o holl fedalau aur Tîm Prydain Fawr. Dathlodd Cymru y llwyddiant hwnnw ar risiau'r Senedd ym Mae Caerdydd yn dilyn taith mewn bws agored. Rydym yn sicrhau y bydd y strategaeth hon yn sicrhau canlyniadau tebyg ac edrychwn ymlaen at ailadrodd y dathliadau hynny mewn chwaraeon Olympaidd/Paralympaidd yn ogystal â chwaraeon eraill.

Dr Huw Jones
Prif Weithredwr, Chwaraeon Cymru

> "mae'r Strategaeth Chwaraeon Elite yma yn flaengar. Bu llawer o ymgynghori arni gyda'n partneriaid mewn cyrff rheoli a fydd y prif gyfryngau cyflenwi. Mae'n nodi uchelgeisiau afresymol iddynt hwy a ninnau.

11. atodiad

Cyflawniadau Cymru mewn chwaraeon elite rhwng 2006 a 2009

11.1.

Blwyddyn	Cyflawniad
2006	**Gemau'r Gymanwlad** • Cymru'n ennill 19 medal ym Melbourne – mwy o fedalau y pen y boblogaeth nag unrhyw un o'r gwledydd cartref eraill, fel ym mhob un o'r pedwar o Gemau'r Gymanwlad cyn hynny
	Cyflawniadau eraill • Ym myd golff, Cymru'n gorffen yn bedwerydd o blith 70 gwlad yn Nhlws Eisenhower 2006 (pencampwriaethau tîm y byd i ddynion amatur) • Ym myd bocsio, Joe Calzaghe'n dod yn bencampwr uwch-bwysau canol y byd yr IBF gan ychwanegu at ei deitl WBO ac Enzo Maccarinelli'n dod yn bencampwr pwysau godrwm y byd y WBO • pencampwriaethau nofio'r byd y PPRh yn 2006 – tîm PF ar frig y tabl medalau gan ennill 24 aur, 14 arian, 14 efydd – enillodd athletwyr Cymru 10 aur, 1 arian a 5 efydd – gan dorri 4 record Byd ac 1 record Ewropeaidd
2007	• Ym myd golff, dewis tri Chymro ar gyfer tîm Cwpan Walker Prydain Fawr ac Iwerddon 2007 i chwarae'n erbyn UDA – y gynrychiolaeth uchaf erioed (30% o'r tîm) • Ym myd bocsio, Joe Calzaghe'n uno teitlau uwch-bwysau canol y byd y WBO, y WBA a'r WBC a Gavin Rees yn dod yn bencampwr uwch-bwysau ysgafn y byd y WBA
2008	**Y Gemau Olympaidd** • Pum medal Olympaidd yn Beijing – y perfformiad gorau gan athletwyr Cymru ers 100 mlynedd • Tri medal aur Olympaidd yn Beijing – y cyntaf gan athletwr o Gymru ers 36 o flynyddoedd
2008	**Y Gemau Paralympaidd** • Deg medal aur Paralympaidd yn Beijing – bron i chwarter cyfanswm y medalau aur a enillwyd gan Dîm PF • 31 o athletwyr Cymru yn nhîm Paralympaidd PF yn Beijing – bron i 15 y cant o'r cyfanswm, a 25 y cant yn fwy o athletwyr o Gymru nag oedd yn Athen yn 2004
2008	**Cyflawniadau eraill** • Ym myd bocsio, Joe Calzaghe'n dod yn bencampwr pwysau trwm ysgafn y byd • Ym myd beicio, Nicole Cooke yn dod yn bencampwraig rasio ffordd y byd • Ym myd triathlon, Helen Tucker yn dod yn Bencampwraig Byd yr ITU • Tîm Rygbi'r Undeb Cymru'n ennill y Gamp Lawn ym Mhencampwriaeth y Chwe Gwlad • Tîm Rygbi'r Undeb Merched Cymru'n gorffen yn ail yn nhwrnament y Chwe Gwlad • Tîm Rygbi'r Undeb Dan 20 Cymru'n gorffen yn bedwerydd ym Mhencampwriaethau Iau y Byd yr IRB • Cymru'n gorffen yn chweched yn nhabl y medalau yng Ngemau Ieuenctid y Gymanwlad yn Pune yn 2008 gydag 16 o fedalau
2009	• Deuddeg o chwaraewyr Rygbi'r Undeb Cymru'n cael eu dewis ar gyfer taith Llewod Prydain ac Iwerddon i Dde Affrica • Tîm rygbi saith Cymru'n ennill Cwpan Rygbi Saith y Byd yn 2009 • Tîm Rygbi'r Undeb Merched Cymru'n ennill y Goron Driphlyg am y tro cyntaf erioed yn nhwrnament y Chwe Gwlad • Tîm pêl droed D21 y dynion yn methu cymhwyso ar gyfer rowndiau terfynol Ewrop o drwch y blewyn, mewn gêm ail gyfle'n erbyn Lloegr

errea

2006

errea

1353
WALES
178
1149